# Heddwch

Rhif. 4 Haf 1992 20c


# UN CAM YMLAEN

***Bob Cole***


Rhaid i aelodau CND groesawu'r penderfyniad rhwng UDA a Rwsia i leihau eu harfogaethau arfau niwclear strategol. Ynghyd â phenderfyniad unochrog y llywodraeth Brydeinig i ddileu'r holl fomiau dyfnder niwclear yr arferid eu cario ar longau'r Llynges Frenhinol, mae'n arwydd bod y broses ddiarfogi'n mynd rhagddi.

Dylai'r mudiad heddwch weld hwn fel cam yn y cyfeiriad iawn, ond ni ddylem fod yn hunanfodlon. Dim ond y systemau trosglud a ddinistrir – erys yr ergydion eu hunain yn gyfan. Ac mae'r cytundeb yn dal i adael 3,500 yr un o arfau rhyng-gyfandirol ym meddiant UDA a Rwsia. (Mae hyn yn fwy na digon i ddinistrio'r byd, ac yn deirgwaith cymaint na'r lefel phan ffurfiwyd CND.)

Yn yr un modd, mae'r ffaith fod Prydain yn gwneud rhywfaint o ddiarfogi unochrog – er mai dim ond cyfartaledd bychan o'i harfogaeth yr effeithir arno – yn rhoi cyfle i ni bwyso am fwy. Os nad oes arnom angen ffrwydron dyfnder niwclear, yna pam mai angen bomiau rhydd-ddisgyniad a Trident?

Mae'n ffaith ddi-amheuol bod gan CND ran i'w chwarae o hyd, ond mae gofyn i ni gwestiynu ein cyfeiriad beunydd a phwyso a mesur oblygiadau datblygiadau rhyngwladol a gwladol. Er gwaethaf y cwtogi, mae gwelliannau i systemau arfau yn parhau ac mae bygythiad lledaenu niwclear yn ei hwynebu beunydd.

Mae cytundeb gwahardd profion cynhwysfawr a chytundeb atal-lledaenu cryfach yn ddwy nod y dylem fod yn ymgyrchu o'u plaid. Efallai bod y byd yn ddiogelach lle ar ôl yr uwch-gynhadledd, ond dengys yr anhrefn a'r lladd yn yr hyn oedd gynt yn Iwgoslafia bod gennym ffordd bell iawn i fynd cyn ennill heddwch i'r byd.






Tanciau 'Rwsiaidd' rwber y tynnwyd eu llun gan is-gadeirydd CND, Rod Stallard, yn ystod Operation Cardinal

# *Awyr boeth*

***Rod Stallard***

Ymarferiad milwrol hedfan isel oedd 'Operation Highland Cardinal' a gynhaliwyd gan yr Awyrlu Brenhinol gyda rhai awyrennau o luoedd awyr yr Unol Daleithau a'r Iseldiroedd yn ystod pythefnos ym mis Mai dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

Nod yr ymarferiad hwn oedd hyfforddi criw awyr a chriw daear i hedfan yn isel tuag at dargedau'r 'gelyn'. Hedfanwyd 800 *sortie* mewn cyfnod o ddeg diwrnod. Amgangyfrifir bod costau rhedeg yr awyrennau eu hunain yn ystod yr ymarferiad yn £6 miliwn, gyda phob awyren yn gollwng cymaint o nwyau carbon i'r awyrgylch ar un daith ag y gwnai un car mewn blwyddyn ar gyfartaledd.

Mae'r Awyrlu Brenhinol yn derbyn nad yw'r Ffederasiwn Rwsiaidd yn fygythiad bellach, ond mynnant fod ymosodiad yn bosibl o unrhyw gyfeiriad. O fewn y sefydliad milwrol, mae'n amlwg bod arnynt angen 'creu' gelyn er mwyn cyfiawnhau bodolaeth yr ymerodraeth filwrol. Parheir i arfer hedfan isel fel tacteg er gwaethaf yr honiadau iddo fethu yn ystod rhyfel y gwlff.

Derbynnir bod yn rhaid lladd gelyn cyn iddynt hwy allu ymosod arnom 'ni'. Ymddengys yn gwbl amherthnasol y lleddir nifer fawr o ddinasyddion cyffredin ac y difethir yr amgylchedd.

Derbyniodd staff yr Awyrlu bresenoldeb CND Cymru yn eu Cyfleuster i'r Wasg. Roedd yr hedfan isel a arddangoswyd mewn gofod agored iawn gydag awyrennau'n hedfan ar uchder o 250 troedfedd ar gyflymdra o 400 mya heb, dwi'n amau, sbarduno i'r eithaf. Ymddan-gosai'r ymyrraeth a'r lefelau sŵn gryn dipyn yn is nag a geir pan fydd awyrennau'n plymio i 100 treodfedd mewn cwm cul.

Fodd bynnag, roedd y daith hofrennydd i aelodau'r wasg yn ôl i Raeadr yn brofiad newydd a fwynheais.

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a dros fyd lle bydd yr adnoddau anferth a wastreffir heddiw ar filitariaeth yn cael eu hail-gyfeirio i ddiwallu gwir anghenion y gymdeithas ddynol.**

# Rhithiau peryglus

**Mae CND Cymru yn edwino. Llai yn dod i gyfarfodydd cangen, llai o weithgareddau, a llawer o ganghennau yn ddim mwy na rhestri o enwau ar bapur. Pam felly? Dyma Denis Martin yn rhoi pethau mewn persbectif.**

Wrth gwrs, aeth amser maith heibio er raliau cynnar Aldermaston, ac mae hyd yn oed Comin Greenham yn rhan o hanes erbyn hyn. Mae'n anodd cynnal yr un lefel o weithgaredd mewn unrhyw fudiad. Ond un ffactor bwysig yw'r teimlad bod y rhyfel oer ar ben, ac y ceir rheolaeth ar arfau niwclear eu hunain cyn bo hir.

Yn anffodus, rhith beryglus yw hon, gan bod y byd yn sefyll ar drothwy dyfodol ansicr a threisgar.

Mae'r syniad yn deillio o'r gamdybiaeth mai'r Undeb Sofietaidd oedd yn bygwth heddwch y byd cynt. Gan fod Rwsia a'r gwladwriaethau annibynol eraill ar drywydd democratiaeth, mae gennym lai i'w ofni o'r cyfeiriad hwnnw, tra bod gweddill y byd yn ddiogel, mewn cynghrair sydd o dan reolaeth. Mewn gwirionedd, mae'r sefyllfa'n dra gwahanol.

## ias o arswyd

Roedd chwyldro Hydref 1917 yn beth unigryw o'r safbwynt mai dyma'r tro cyntaf i'r tir, y banciau, cludiant, cyfathrebu a chynhyrchu gael eu gwladoli heb iawndal. Danfonodd hynny ias o arswyd drwy fusnesau mawr y byd. Felly, o'r diwrnod hwnnw, daeth Rwsia Sofietaidd yn elyn y byd cyfalafol: chwedl Winston Churchill, 'rhaid oedd llindagu'r babi Bolsieficaidd yn ei grud'.

Cyfunodd pedair ar ddeg o genhedloedd yr *Entente* a'r Pwerau Canolog (tra'n parhau i ryfela â'i gilydd) i geisio gorchfygu'r Bolsieficiaid ac, ar ôl y cadoediad, dyma ymosod ar y gweriniaethau Sofietaidd ifainc. Methodd hynny oherwydd gwrthryfelodd milwyr y gwahanol fyddinoedd, wedi hen syrffedu ar ryfel; cefnogodd undebwyr llafur o bedwar ban y byd y Bolsieficiaid, a bu chwyldro yn Ewrop ei hun.

Felly, newidiwyd y tactegau. Rhoddwyd blocâd ar yr Undeb Sofietaidd, a sefydlwyd byddin broffesiynol gyflyredig i roi cynnig arall arni. Gwnaed hynny gan y Natsiaid. Rhaid cofio pan oedd gan yr Almaen lywodraeth ddemocrataidd, y polisi oedd 'gwasgu'r Almaen nes bod yr hadau'n gwichian'. Pan ddaeth y Natsiaid i rym, llifodd miliynau o bunnau i mewn i'r Almaen oddi wrth lywodraethau Prydain ac America a'u busnesau mawr. Pan ymosododd Hitler ar yr Undeb Sofietaidd ym 1941, roedd yr Almaen wedi ymchwyddo gan gynnyrch a byddinoedd yr holl wledydd yr oedd wedi eu meddiannu, a'r fyddin gyfunol a hyrddiwyd yn erbyn yr Undeb Sofietaidd oedd y fyddin fwyaf a gynulliwyd erioed.

Methodd hynny hefyd, ond roedd y gost i'r Undeb Sofietaidd yn anferth. Ar derfyn y rhyfel, roedd 20 miliwn o bobl Sofietaidd yn gelain ac roedd cyfran helaeth o'r wlad wedi ei dinistrio. BwriadChurchill oedd parhau â'r rhyfel yn erbyn yr Undeb Sofietaidd yn ei gwendid mawr. Ond dinasyddion cyffredin mewn iwnifform oedd milwyr byddinoedd America a Phrydain na fyddai wedi ymladd ysgwydd wrth ysgwydd â'r Natsiaid yn erbyn eu cynghreiriad adeg-rhyfel. Rhaid oedd sefydlu byddin broffesiynol, gyflyredig at y gwaith, a gwnaed hynny drwy NATO, gan gynnwys lleng Almaenaidd o hanner miliwn o ddynion.

## 'Operation Dropshot'

Dewisodd y Pentagon yn y pen draw 'Operation Dropshot', sef cynllun a olygai ollwng 100 o fomiau niwclear ar drefi a dinasoedd yn yr Undeb Sofietaidd cyn i filwyr NATO feddiannu'r wlad, a hyn oll i ddigwydd dim hwyrach na'r 1 Ionawr 1957. Methodd hynny hefyd oblegid erbyn 1957 roedd yr Undeb Sofietaidd wedi chwalu'r monopoli ar arfau niwclaer.

Felly, dyma ymlwybro i mewn i oes y ras arfau niwclear. Mae yna bellach fwy na 50,000 o arfau niwclear â'r gallu i ddinistrio'r blaned gyfan sawl gwaith. Gyrrwyd hyd yn oed imperialwyr rhyfelgar i anobaith oblegid ymddangosai'n amhosibl dinistrio'r Undeb Sofietaidd heb ddinistrio'r Unol Daleithau ar yr un pryd.

Rhaid oedd ailfeddwl polisi. Bu ymdrechion gan y CIA i dreiddio i mewn i bleidiau Comiwnyddol, a dadsefydlogi gwladwriaethau blaengar eu tueddfryd (megis Chile o dan Allende ac Iran o dan Mossadeq) yn bur lwyddiannus. Fodd bynnag, rhwystrwyd y CIA 'y tu fewn i darged-wledydd (h.y. lloerennau Sofietaidd) oherwydd effeithlonrwydd gwasanaethau diogelwch mewnol y comiwnyddion.' (Philip Agee, 1975)

Felly, rhaid oedd meddwl am rywbeth arall, sef 'imperialaeth hysbysrwydd', y modd y monopoleiddir y cyfryngau gan gorfforaethau anferth, gyda'r bwriad o boblogeiddio menter breifat fel cyflwr naturiol a thragwyddol datblygiad y ddynolryw, ac egluro pam mae angen cymorth y cwmniau trawswladol ar wledydd sy'n datblygu.

## propaganda

Arweiniodd y broses hon o foddi diwylliannau tramor gan ideoleg Americanaidd at wrthdaro yn y Cenhedloedd Unedig. Ceisiodd UNESCO sefydlu dewisiadau amgen i bropaganda holl-alluog, holl-dreiddiol America, felly cerddodd yr Americaniaid (a Phrydain, wrth gwrs) allan o UNESCO.

O 1973 ymlaen ymladdwyd brwydr ideolegol ffyrnig drwy gyfrwng Radio Liberty, Radio Free Europe, Voice of America, y BBC, a gorsafoedd Ewropeaidd eraill, ynghyd â lloerennau'n trosglwyddo'n nerthol i ddarbwyllo pobl y gwledydd Sosialaidd a'r rhai oedd newydd ad-ennill eu hannibyniaeth gymaint well fyddai eu byd pe bai iddynt fabwysiadu system y 'farchnad rydd'. Methiant fu hynny hefyd.

Felly, daeth y cynnig olaf ym mis Mehefin 1982 pan ddaeth Reagan i Brydain i wneud araith na chlywyd ei bath o'r blaen i dai'r senedd, yn galw am 'groesgad byd-eang dros ryddid lle byddai'r UD yn cynorthwyo lluoedd democrataidd mewn unbenaethau asgell-dde yn ogystal â gwledydd comiwnyddol'. Gan bwysleisio y byddai'n rhaid atgyfnerthu NATO hefyd, dywedodd mai'r 'braw-ataliad terfynol yn y frwydr sydd bellach yn mynd rhagddi am y byd fydd nid bomiau a rocedi ond prawf ar ewyllys a syniadau – prawf ar benderfyniad ysbrydol.'

Llwyddodd y polisi hwn heb i'r un gwn gael ei danio. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, roedd sosialaeth wedi ei dymchwel yn Nhganolbarth Ewrop a'r Undeb Sofietaidd ei hun. Roedd wedi costio degau o filiynau o ddoleri, ond ni frifwyd mo'r un Americanwr a gallai Bush ddatgan y falch 'Mae'r Rhyfel Oer ar Ben – Ond Ni a Enillodd'. Roedd y byd yn ddiogel (am y tro, p'run bynnag) i gyfalaf – yn enwedig cyfalaf Americanaidd.

Roedd sosialaeth, er gwaethaf ei hamherffeithrwydd, wedi darparu cyflogaeth lawn i bobl gyffredin; diogelwch; rhenti, cludiant a gwasanaeth teleffon rhad; addysg a gofal iechyd yn rhad ac am ddim; gwyliau noddedig; a rhywbeth sydd bron yn anghof yn y gorllewin, diwylliant o fewn cyrraedd pobl gyffredin. Nid ras gystadleuol oedd bywyd. Nid oedd ganddynt beiriannau walkman, jîns, na ffilmiau treisgar a rhywiol.

Fe'u sicrhawyd hwy – yn enwedig pobl ifanc – pe baent i ddymchwel y llywodraethau Comiwnyddol oedd yn eu llethu, y gallent gadw'r hyn oedd ganddynt eisoes, ond y caent ddigonedd o'r pethau hynny nad oedd ganddynt.

## rhyfel cartref

Heddiw, gwelwn y sefyllfa wirioneddol. Mae rhyfeloedd cartref yn ysgubo drwy gwladwriaethau sosialaidd blaenorol, dan arweiniad cenedlaetholwyr cul a phenboethiaid crefyddol. Mae eu heconomiau yn gandryll. Hyd yn oed yn ystod y rhyfel, roedd bwyd gan bobl yr Undeb Sofietaidd ond yn awr, mae newyn yn y tir ac mae'r ILO yn disgwyl i 45 miliwn o bobl fod yn ddiwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Felly, wele'r ail fyd yn ymuno â'r trydydd mewn diclloner a thlodi tra'n eistedd ar stoc o arfau niwclear.

Mae America bellach yn tralywodraethu ar y byd fel Y pwer mawr (er bod hynny ar sail economaidd sigledig), ond mae'r sefyllfa fel arall yn dychwelyd y byd i'r oes cyn 1914, ac eithrio bod y pwerau gelyniaethus wedi eu canoli fwy o dan UDA, y GE a Siapan, y naill yn gwylio'r llall yn ddrwgdybus tra bod arfau niwclear yn cynyddu a lledaenu a thra tyfa blociau arfog newydd y tu allan i gylch dylanwad NATO.

Na! Does dim cyfiawnhad dros deimlo'n iwfforig – ac mae cymaint o angen CND Cymru ag erioed.

# FFARWEL I HYNNY OLL

**Bu gwaith caled, aberth, ofn a chryn dipyn o ysbrydoliaeth radical oll yn rhan o hanes maith Caerwent a'r mudiad heddwch. Dyma Paul Flynn, AS Gorllewin Casnewydd, yn edrych yn ôl.**

Mae cau'r ystorfa arfau yn anorfod bellach. Amddifadodd diwedd y Rhyfel Oer y lle o'i bwrpas fel gwersyll reng flaen, yn storio arfau i'w defnyddio gan luoedd NATO i ymladd y trydydd rhyfel byd yn Ewrop yn erbyn lluoedd Cytundeb Warsaw.

O 1937 i 1962 roedd yn wersyll milwrol, yn cynhyrchu cordit yn ystod y rhyfel. Dilynodd y protestiadau cyntaf y cyhoeddiad bod yr Americaniaid am feddiannu'r safle, ym 1967.

Roedd Tony Simpson yn un o'r garfan fechan a orymdeithiodd drwy'r pentref yn protestio yn erbyn ei swyddogaeth newydd ac yn tanlinellu'r bygythiad y gallai bomiau niwclear gael eu cadw yno. Ni phoenai'r bobl leol a derbyniwyd y presenoldeb Americanaidd, i raddau helaeth. Er ei gamfedyddio'n RAF Caerwent, gwersyll yr UD oedd y safle, gydag un swyddog symbolaidd o'r Awyrlu Brenhinol yn gweithredu fel landlord.

Oedodd yr orymdaith wreiddiol o Gaerdydd i Gomin Greenham yma, a chael picnic ar y glaswellt y tu allan. Dangosodd y swyddog Awyrlu ofnus ei wyneb am ennyd i dderbyn neges gan y cerddwyr, yng nghanol bonllefau o 'llofrudd torfol' a 'cynffonnwr Americanaidd'.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ym 1982, sefydlwyd gwersyll heddwch. Cododd Joan Ruddock a John Cox arwydd y gwersyll a chroesawu'r trigolion cyntaf. Gyda aelodau o grwpiau CND Casgwent, Casnewydd a Chaerdydd yn bennaf, roedd hefyd yn gartref i bobl o rannau eraill o Gymru – yn cynnwys Brig Oubridge o'r Blaid Werdd. Am chwe mis, roedd y gwersyll yn ffocws i weithgareddau'r mudiad heddwch Cymreig.

Nid oedd y dystiolaeth bod arfau niwclear yn Nghaerwent yn argyhoeddiadol iawn erioed – am un peth, roedd mesurau diogelwch yn rhy llac. Ond testun pryder mawr i'r gwersyllwyr heddwch oedd y cynnydd mewn cynhyrchu arfau cemegol, yn cynnwys nwy nerfau, y bwriedid eu cadw yn y rheng flaen ym Mhrydain. Argyhoeddwyd y gwersyllwyr gan y gwaith a wnaed ar y safle bod cyflenwadau newydd o arfau cemegol ar eu ffordd yno.




Arwyddion perygl – 'Explosives susceptible to mass explosions' – y tu allan i ganolfan arfau'r UD yng Nghaerwent, ger Casnewydd

Roedd ymwneud â phobl leol yn llai na chyfeillgar ar adegau. Ymosodwyd ar y gwersyll liw nos ddwywaith, a bu'n rhaid i'r Cynghorydd Ray Davies fynd i'r ysbyty ar ôl un ymosodiad.

Mynychwyd cyfarfodydd penwythnos a digwyddiadau yn ystod gwrthdaro'r Gwlff gan gannoedd o Dde Cymru. Datganwyd annibyniaeth Cymru ar 4 Gorffennaf 1992 fel protest yn erbyn trefedigaethu Cymru yn filitaraidd a diwylliannol.

Roedd y pryderon ynghylch Caerwent yn cynnwys ofnau parthed symud cad-offer ar ffyrdd a rheilffyrdd lleol. Yn ddiweddar, disgynnodd un o awyrennau'r llynges filltir o'r safle.

Roedd yr ymgyrchoedd heddwch wedi eu canolbwyntio ar Gaerwent yn ystod cyfnod o arswyd byd-eang yn werddon o bwyll i lawer ohonom mewn byd gorffwyll.

Bydd gwaith a delfrydiaeth y cyfeillion lu a fu'n gwrthdystio yno yn para i fod yn ysbrydoliaeth barhaus ac yn atgof annwyl.

Y wobr fydd gweld, cyn hir, alltudio arfau rhyfel o Gaerwent, a dychwelyd hen feysydd a choedlannau Sain Tathan i ddibenion heddychlon.

# GWASTRAFF A PHERYGL

Mae prynu Trident yn golygu y bydd rhaid i gymunedau lleol wynebu 30 mlynedd arall o beryglon niwclear a threftadaeth o wastraff ymbelydrol am filoedd o flynyddoedd. Dyna oedd neges cynhadledd a gynhaliwyd yn Glasgow ym mis Mehefin gan awdurdodau 'di-niwclear' gwledydd Prydain.

Nododd y trefnwyr bod Trident yn golygu parhau ag ymchwil, datblygu a chynhyrchu arfau niwclear yn Aldermaston a Burghfield yn Berkshire, ac yn Llanisien, Caerdydd, gyda pherygl damweiniau lle gollyngir deunydd ymbelydrol neu gemegol gwenwynllyd.

Golyga gludo cyfansoddrannau arfau niwclear a'u hergydion rhwng y safloedd hyn ac ymlaen drwy Loegr a'r Alban i'r gwersyll Trident yn Faslane, gyda pherygl damwain ddifrifol a allai arwain at wasgaru plwtoniwm.

Mae Trident yn golygu mai parhau a wna'r perygl o ddamwain ar fwrdd llong danfor niwclear mewn porthladd neu ar y môr. Mae'n golygu y bydd rhaid cludo llawer mwy o danwydd adweithydd niwclear hesb i'w ailbrosesu yn Dounreay a Sellafield.

Yn y ffyrdd hyn, meddant, mae Trident yn cynrychioli 'perygl cwbl ddianghenraid i gymunedau lleol, a gwastraff trist ar gyllid cyhoeddus y mae cymaint o'i angen er sicrhau trefi a dinasoedd iach.'

Dechreuodd y gynhadledd â dadansoddiad o ba mor anobeithiol o anaddas yw Trident i'r hinsawdd diogelwch rhyngwladol yn y 1990au ac aeth ymlaen i drafod y £17,000 miliwn y gellid ei arbed drwy roi'r gorau i'r rhaglen.

Canolbwyntiodd siaradwyr hefyd ar gost leol methiant y llywodraeth, ar derfyn y 'Rhyfel Oer', i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol sifil gynaladwy, a daeth y gynhadledd i ben gyda thrafodaeth o'r camau y gall awdurdodau lleol eu cymryd i hyrwyddo datblygiad economaidd a diogelwch y cyhoedd.

- Mae Pwyllgor Llywio'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear wedi cyhoeddi llawlyfr newydd yn ymdrin â phob agwedd o'i ymgyrch o blaid diogelwch cyhoeddus a diogelu'r amgylchedd.

Dylai unrhywun sydd am gefnogi – neu bwyso ar – eu cynrychiolwyr etholedig i wneud mwy sicrhau copi.

Mae awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn Ymgyrchu dros Ddiogelwch Cyhoeddus a Diogelu'r Amgylchedd' ar gael (pris £1.50) gan yr Uned Hysbysrwydd a Pholisi Niwclear, Cyngor Dinas Manceinion, Neuadd y Dref, Manceinion M60 2LA.

## *GWERTHU DROS HEDDWCH*

Mae Heddwch yn edrych am rywun i werthu gofod hysbysebu yn y papur. Credwn bod yna nifer helaeth o hysbysebwyr posibl nad ydym yn ein cyrraedd a hoffai gysylltu â'n 6,000 a mwy o ddarllenwyr. Gallai hynny gynhyrchu incwm i gyfrannu tuag at gostau sylweddol cynhyrchu a dosbarthu.

Os byddech yn fodlon dod i gysylltiad â hysbysebwyr posibl – drwy lythyr ac ar y ffôn – yna cysylltwch â Mary Jones, da chi (0792 774687). Byddem yn fodlon cynnig trefniant comisiwn.

# A OES HEDDWCH?

*Yn y blynyddoedd diwethaf er pan ddaeth y 'rhyfel oer' i ben, gwelwyd mwyfwy o 'ryfeloedd lleol'. Mae'r rhain wedi peri dioddefaint mawr i ddinasyddion cyffredin oherwydd cyflafan filwrol, prinder bwyd, a dinistrio cyfleusterau sylfaenol. Maent hefyd wedi niweidio'r amgylchedd yn ddybryd.*

*Rwy'n cofio erthygl a ddarllenais ym 1989 ynglŷn â'r argoelion gwael ar gyfer gweithwyr yn y diwydiannau arfau. Tua'r un adeg, dywedodd un o arweinwyr NATO nad oedd yr Undeb Sofietaidd yn elyn bellach, ond bod yn rhaid i'r 'sefydliad' edrych am elyn newydd.*

*Pan gwtogir ar gynhyrchu a gwerthu arfau, bygythir elw nifer o gwmniau cenedlaethol a thraws-wladol. Ymddengys bod gan lywodraethwyr y cwmniau hyn ddylanwad sylweddol yn y byd. Gallant ysgogi gweithwyr i wrthsefyll cwtogi ar wariant ar arfau. Gallant ochrgamu gwaharddiadau ar fasnachu mewn arfau. A allant ddylanwadu ar grwpiau o bobl i newid strwythurau grym mewn gwledydd ansefydlog drwy ddulliau milwrol?*

*Mae amlwg yn yr adroddiadau newyddion bod digonedd o arfau a chadoffer ar gael yn y 'rhyfeloedd bach' sydd yn cael eu hymladd yn ein byd, ac eto, mae'r bobl ar eu cythlwng. Tra bod elusennau'n cyfrannu bwyd, offer meddygol a chymorth technegol i'r dinasyddion cyffredin, mae'r un boblogaeth yn cael ei lladd gan arfau newydd.*

*Mae gan y Deyrnas Unedig gangen o'r Gwasanaeth Sifil o'r enw y Mudiad Gwerthiant Allforion Amddiffyn sydd yn cyflogi rhyw gant o weision sifil i hwyluso gwerthu arfau gan gwmniau cynhyrchu Prydeinig i lywodraethau tramor.*

*Defnyddir yr arfau hyn i ladd pobl. Mae ein llywodraeth ni o blaid gwerthu'r arfau hyn. Ni sydd yn ethol ein llywodraeth. Rydym ninnau'n cyfranogi yn y lladdfa a welwn ar yr adroddiadau newyddion, yn y rhyfeloedd 'lleol'.*

*Er rhoi terfyn ar ryfel, rhaid i ni roi terfyn ar y fasnach arfau.*

**Rod Stallard**

# DYLUNYDD BOMIAU YN ERBYN TRIDENT

## Mae Americanwr a fu'n gweithio ar arfau niwclear am ffurfio rhwydwaith gwrth-Trident traws-Iwerydd.



Yn y fan a'r lle – Bob Aldridge y tu allan i'r Sefydliad Arfau Atomig, Caerdydd

Ymwelodd Bob Aldridge â Chymru ym mis Mehefin a chymerodd rhan yn yr wylnos wythnosol y tu allan i Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Caerdydd lle gwneir ergydion Trident.

Cyn cefnu ar y diwydiant niwclear ym 1973, bu Aldridge yn gweithio ar system Trident yr UD. Byth er hynny, bu'n ymgyrchu'n ddiflino dros heddwch.

Ar ymweliad â Siop Heddwch Caerdydd, disgrifiodd y Trident Prydeinig fel 'dim mwy nag estyniad i system Trident yr UD – rheng flaen i'r system honno'.

Mae taflegrau Trident Prydain yma ar lês o America ac mae Prydain yn prynu cerbyd ail-fynediad Mark 4 yr UD sydd yn diogelu'r ergydyn wrth iddo ddisgyn drwy'r awyrgylch.

Mae'r ergydyn (a wneir yng Nghaerdydd, Aldermaston a Burghfield) yr un ffunud â'r W76 Americanaidd. Gwnaeth y pibau lawnsio taflegrau ar HMS Vanguard yn California gan Westinghouse, ac mae Bob Aldridge yn argyhoeddedig y caiff system reoli tanio'r llong danfor ei dylunio neu'i chynhyrchu yn UDA.

Pan fyddant yn weithredol bydd y llongau tanfor Prydeinig yn ddibynnol ar system radio amledd eithriadol isel Americanaidd am gyfathrebu is law dyfnder o 50 troedfedd. Cyn gallu saethu taflegrau, byddai rhai i gapten y llong danfor ddibynnu ar rwydwaith lloeren 'Navstar' yr UD i sefydlu ei safle yn fanwl gywir.

Detholir y targedau a glustnodir ar gyfer llongau tanfor Prydain gan wasanaeth cudd-wybodaeth yr UD, yn defnyddio lloerennau sbio. Byddai hyd yn oed taflwybrau'r taflegrau wedi gweithio allan yn America.

'Mae Prydain wedi bod yn gweithio gyda'r UD ar brofi bomiau er dylunio'r bom cyntaf', meddai Bob Aldridge. A rhybuddiodd bod America a Phrydain yn bwrw ymlaen â systemau wedi eu lawnsio o longau tanfor er gwaethaf toriadau mewn mathau eraill o arfau niwclear.

Er atal Trident, mae angen i weithwyr dros heddwch yn America a Phrydain i gydweithredu. 'Byddai'n denu llawer mwy o sylw yn y cyfryngau ac yn gwneud mwy o argraff pe bai gweithred yng Nghaerdydd ar y cyd â gwrthdystiadau mawr ledled y byd.'

Nod arall yw cydgysylltu ymchwil fel bod ymgyrchwyr dros heddwch yn rhagweld datblygiadau newydd, yn hytrach na gorfod ymateb i benderfyniadau'r llywodraeth byth a hefyd.

*Mae copiau o 'Trident Resisters' Handbook' Bob Aldridge a gwybodaeth am y Rhwydwaith Gwrth-Trident ar gael gan Rae Street, Calder Cottage, Hare Hill Road, Littleborough OL15 9HG (0706 378043)*

# A dyma'r newyddion da:

## Cymru'n gwrthod y Toriaid

Cymysg oedd canlyniadau'r etholiad i ni yn y mudiad diarfogi. Unwaith eto, gwrthododd yr etholwyr y Toriaid, gyda dim ond 25 y cant yn pleidleisio iddynt; serch hynny, daliasant eu gafael ar chwe sedd.

Collodd y blaid Lafur rai seddau ac ennill eraill, a hi yw'r blaid fwyaf yng Nghymru o bell ffordd o hyd gyda 25 o ASau. Enillodd Plaid Cymru un sedd oddi wrth y Democratiaid Rhyddfrydol gydag ethol Cynog Dafis, AS 'gwyrdd' cyntaf Prydain sydd wedi cefnogi CND ar hyd ei oes.

Dim ond un sedd sydd ar ôl gan y Democratiaid Rhyddfrydol a gollodd nid yn unig Geraint Howells yng Ngheredigion ond sedd Richard Livelsey ym Mrycheiniog hefyd, honno i'r Toriaid o lond-dwrn o bleidleisiau. Nid oedd Richard bob amser yn cytuno â ni, ond roedd bob amser yn gymwynasgar a chefnogol pan aem ar ei ofyn – sydd yn fwy nag y gellir ei ddweud am rai o ASau Cymru.

Y darlun cyffredinol yw bod gennym, er gwaethaf rhai colledion, lawer o gefnogwyr o Gymru yn San Steffan, ac roedd rhai ohonynt wrthi o fewn diwrnodau i'r etholiad, yn codi cwestiynau ynglŷn â hedfan isel. Felly, rydym yn dal i fod mewn safle da i gadw diarfogi ar yr agenda.

Pe bai i'n HSau ein methu, mae gennym bellach foethusrwydd aelod o CND yn Nhŷ'r Arglwyddi, gyda dyrchiafiad Dafydd Elis Thomas!

Ond, gydag ychydig bach o gydweithrediad rhwng y gwrthbleidiau, gallasem fod wedi hel y Toriaid o Gymru. Gellid fod wedi dal gafael ar – neu ennill – seddau fel Brycheiniog a Maesyfed, Bro Morgannwg, a hyd yn oed sedd Wyn Roberts yng Nghonwy pe gellid fod wedi goresgyn sectyddiaeth a chael cydweithrediad rhwng y pleidiau gwrth-Doriaidd.


Caiff llawer o wleidyddion Cymru hi'n haws anghytuno na gweithio gyda'i gilydd. Dwi ddim yn credu bod gennym yr amser i hunan-faldodi o'r fath.

Un o'r datblyiadau i'w groesawu fwyaf oedd cynghrair y Blaid/Gwyrddion yng Ngwent; os pery hyn a bwrw gwreiddiau, gallai ffurfio sail gwleidyddiaeth newydd i Gymru.

Mae bywyd ynglŷn ag adnewyddu, cymryd y pethau gorau o'r hen, dysgu o'n camgymeriadau a gwella a chreu strwythurau a syniadau newydd i'n dwyn yn ein blaen. Dichon nad yw'n boblogaidd dyfynnu Marx bellach, ond roedd yn llygad ei le pan ddwedodd 'Yr unig gysonbeth yw newid'.

Ni ddylem ni, yn y mudiad heddwch, byth ofni newid. Mae'n bryd i ni ddal ar y cyfle.

**Bob Cole**



# CEFNOGWCH Y SHOSHONE

Ym mis Medi bydd dwy Americanes Frodorol yn teithio Cymru fel rhan o ymgyrch i ennyn cefnogaeth i'w brwydr yn erbyn profion bomiau niwclear yn Nevada.

Mae llywodraethau Prydain a'r Unol Daleithiau yn parhau i gynnal profion niwclear ar dir y Shoshone Gorllewinol, Newe Sogobia. Bu 700 o ffrwydradau tanddaearol er 1945.

Arwyddodd cynrychiolwyr y Shoshone Gorllewinol a llywodraeth yr UD gytuniad Dyffryn Ruby ym 1863. Nid oedd o fantais neilltuol i'r Shoshone Gorllewinol, ond cydnabyddai eu sofraniaeth diriogaethol a diogelu eu hawliau brodorol, h.y. eu hawl i fyw ar y ddaear ac ennill bywoliaeth arno. Aeth Erbyn y Cytuniad hwnnw'n ddeddf.

Erbyn heddiw, mae'r UD wedi dwyn bron 90 y cant o diroedd y Shoshone Gorllewinol gan ddefnyddio dulliau o gipio'r tir nas caniateir o dan y Cytuniad. Ym 1979 derbyniodd Ysgrifennydd Mewnol yr UD arian ar ran y Shoshone Gorllewinol yn iawndal am y tir a ddygwyd. Ond ni chytunodd y Shoshone Gorllewinol i werthu'r tir erioed, ac maent wedi gwrthod derbyn arian amdano.

Gwneir profion niwclear pan fydd y gwynt yn chwythu o gyfeiriad California a Las Vegas a thuag at Nevada Ddwyreiniol ac Utah. Mae tiroedd llwyth a gwarchodfeydd y Shoshone Gorllewinol yn y cyfeiriad hwn.

Mewn rhannau o Utah mae'r graddfeydd cancr y gwaed mewn plant yn fwy na dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol. Mae mwy na hanner y profion tanddaearol wedi gollwng ymbelydredd i'r awyr, ac mae'r ardal brawf wedi ei chreithio â chraterau dyfnion a achoswyd gan y ffrwydradau honedig ddiogel hyn.

Llygrwyd dŵr daear ar y safle gan dritiwm a phlwtoniwm. Mae'n debygol y gallai'r dŵr llygredig dreiddio y tu allan i'r safle o fewn rhai cannoedd o flynyddoedd. Mae llygredd plwtoniwm yn ymbelydrol, â'r gallu i achosi cancr am 200,000 o flynyddoedd.

Mae'r Shoshone Gorllewinol wedi gwrthwynebu dinistr eu tiroedd erioed drwy geisio negydu gyda llywodraeth yr UD, dwyn achosion llys, dwyn pwysau ar wleidyddion, annerch cyfarfodydd, cael eu restio ar y safle prawf, agor gwersylloedd/cynulliadau heddwch, cynnal gweithdai ac arwain seremoniau iachau.

Collodd Carrie a Mary Dann frwydr 17 flynedd o hyd yn y llysoedd ym mis Mehefin 1991. Maent wedi bod yn haeru sofraniaeth genedlaethol y Shoshone Gorllewinol yn wyneb cyhuddiadau o dresmasu ar dir y maent hwy a'u neiniau wedi ei ddefnyddio ers cannoedd o flynyddoedd.

Ar Ebrill 10 eleni, ceisio grŵp o gowbois, a nifer o swyddogion y llywodraeth gyda hwy, hawlio gwartheg gwladoledig y Shoshsone Gorllewinol ar ffarm y Danniaid. Dringodd Carrie Dann i mewn i'r llithren lwytho rhwng y gwartheg a'r lori, a bu'n rhaid i'r dynion ildio.

Beth allwch chi ei wneud:

- Ysgrifennwch at y llywodraeth Brydeinig yn protestio yn erbyn parhad rhaglen profion niwclear Prydain.
- Ymunwch â'r Shoshone Gorllewinol i atal profion niwclear yn Nevada o'r 2 i'r 12 Hydref neu cynhaliwch weithredoedd cefnogol yma.
- Cefnogwch eu taith o Gymru ym mis Medi: 23ain, Caerdydd; 24in, Aberystwyth; 25ain, Blaenau Ffestiniog.

Croeso i unrhyw syniadau am roi cyhoeddusrwydd i'r daith, cysylltiadau â'r cyfryngau, cymorth gyda chynllunio. Cysyllter â Sian Evans, 5 Heath St., Glanyrafon, Caerdydd CF1 8LE (0222 396563).

# Bush yn Tanseilio Rio

Trodd Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio, nad oedd yn debyg o gyflawni llawer iawn p'run bynnag, yn ffiasgo gyda'r Unol Daleithiau yn dryllio bron pob ymgais i symud ymlaen. Yn hytrach na bod yn 'gam cyntaf mewn proses bositif' chwedl John Major, mewn gwirionedd mae wedi ehangu'r agendor rhwng De a Gogledd ac esgor ar gonfensiynau amgylcheddol truenus o wan ar gynhesu byd-eang a bio-amrywiaeth.

Gwthiwyd nifer o faterion allweddol oddi ar yr agenda yn llwyr: dyled, masnacha teg, gorddefnyddio adnoddau yn y Gogledd, a rheoli poblogaeth yn y De. Ac o'r foment y dechreuwyd trafod, rhyw ddwy flynedd yn ôl, mae'r UD wedi mynnu na cheir trafod unrhyw faterion milwrol o gwbl.

Ni chaniatawyd i'r Gynhadledd fwyaf a welodd y byd erioed ar Amgylchedd a Datblygiad drafod niwed milwrol i'r amgylchedd, yn ystod ymarferion neu ryfel, y llygredd a achosir gan yr holl gylch niwclear, o fwyngloddio hyd at brofion niwclear; perygl arfau âc adweithyddion niwclear ar y moroedd, yn enwedig y rheini a adawyd ar wely'r môr; dylanwad adweithiol y fasnach arfau ryngwladol ar ddatblygu; neu, efallai y pwysicaf oll, yr angen am drosglwyddo adnoddau o sector filwrol sydd ar hyn o bryd yn gwario $800 biliwn y flwyddyn tra bod 14 miliwn o blant bach yn marw o newyn ac afiechydon y gellid eu hatal, gyda biliwn arall yn byw mewn tlodi affwysol.

Aeth negydwyr yr Unol Daleithiau drwy'r holl gynigion ar gyfer Agenda 21 cyn i'r gynhadledd gychwyn. Dyma'r ddogfen sydd yn argymhell cynllun gweithredu ar gyfer llywodraethau i fynd â ni i mewn i'r 21ain ganrif.




Yn unol â'r 'deg gorchymyn' a restrwyd mewn memo gan y Tŷ Gwyn, dileodd y negydwyr bob cyfeiriad at gysylltiadau rhwng tlodi a diraddio'r amgylchedd; unrhyw awgrym o reolaethau pellach ar gwmniau trawswladol; unrhyw beth a allai gostio arian neu swyddi i'r UD; ac unrhyw gyfeiriad at y gair 'milwrol'.

Efallai'r mai'r agwedd fwyaf positif ar holl broses Uwch-gynhadledd y Ddaear oedd y profiad o gydweithio a gafodd y Mudiadau An-Lywodraethol (MALau) o bedwar ban y byd, a fu wrthi'n ceisio atgyfnerthu agenda'r Gynhadledd. Arweiniodd hynny at y cynulliad mwyaf o fudiadau heddwch, gwyrdd a datblygu a welwyd erioed, yn y Fforwm Fyd-eang yn Rio.

Rhoddwyd llawer o sylw yn y cyfryngau Prydeinig i'r amgylchedd a datblygu, a hyd yn oed ambell feirniadaeth ar y ffaith na thrafodwyd gwariant milwrol eithafol.

Mae'r rhain yn ddatblygiadau y gallwn adeiladu ar eu sail. Rhaid i ni gryfhau ein cysylltiadau ag ymgyrchoedd eraill yng ngwledydd Prydain ac yn fyd-eang, a rhaid i ni bwyso ar y llywodraeth i gyflawni unrhyw ymrwymiadau a wnaed yn Rio, a chymryd camau pellach, dewrach tuag at 'ddiogelwch gwirioneddol'.

**Linda Walker, One World Centre, 13 Paton St., Manceinion M1 2BA. (061 236 1588)**

## Sgandal y Dywysoges a'r llong tanfor!

*Mae penderfyniad y llywodraeth Brydeinig i gadw ei harfogaeth niwclear ei hun wedi fy ngwylltio erioed, ac mae'r rhaglen Trident, sydd yn gynnydd drud a dibwrpas yn yr arfogaeth honno, yn ddigon i gynddeiriogi dyn.*

*Roedd yn bwysig i mi felly fynychu seremoni enwi HMS Vanguard, llong danfor Trident gyntaf Prydain, i wrthdystio, ymyrryd ac, yn y bon, gwneud unrhyw beth posib i ddatgan 'nid yn fy enw i!'*

*Cynhaliwyd y seremoni enwi yn gynharach eleni yn iard longau Vickers yn Barrow-in-Furness lle adeiladwyd 'Vanguard'. Roedd Vickers wedi hysbysebu'r digwyddiad fel dathliad i'r dref, gyda'r rheolwyr, pwysigion, a hyd yn oed y teulu brenhinol, ar ffurf y Dywysoges Diana, yn bresennol. Yno hefyd roedd mwy na 300 o wrthdystwyr gwrth-niwclear, a gadwodd wylnos wrth glwydi'r iard longau wrth i'r crach fynd i mewn.*

*Daeth uchafbwynt y diwrnod pan gyrhaeddodd y Dywysoges Diana, a chael ei chyfarch gan grŵp o Wersyll Heddwch Faslane a Gweithredu Môr Southampton, a eisteddodd yn y ffordd ac atal y limosîn brenhinol.*

*Bu'r rhaid i gar y dywysoges oedi i'r heddlu gael symud y gwrthdystwyr, ac nid ymddangosai Di (mewn ffrog liw eirin gwlanog a het o'r un lliw) fel pe bai wedi ei difyrru gan hyn oll.*

*Cadwyd yr heddlu'n brysur yn ymdrin â phobl yn eistedd neu ddawnsio yn y mynedfeydd drwy gydol y bore, tan y foment yr enwodd Di y llong danfor – pan welwyd gwrthdystiad 'marw' tawel gan y gwrthdystwyr.*

*Wedi hynny, cynhaliwyd seremoni enwi amgen gan Is-Gadeirydd CND, Alistair Mackie, ac yna gorymdeithiodd y gwrthdystwyr o gwmpas yr iard longau a thrwy Barrow.*

*Drwy gyd-ddigwyddiad ffodus, cyrhaeddodd yr orymdaith brif swyddfeydd Vickers wrth i'r Dywysoges Diana geisio ymadael, gan beri iddi ffoi'n ddisut drwy'r drws cefn yn hytrach na wynebu'r gwrthdystwyr unwaith eto.*

*At ei gilydd, nid oedd y gwrthdystiad mor fawr neu mor gofiadwy â digwyddiadau CND blaenorol yn Barrow, ond dangosodd yn glir i Vickers – a'r Dywysoges Di – bod Trident yn gwbl annerbyniol i'r mudiad heddwch. Roeddwn yn falch o fod yno.*

***Peter Burt***

# Dad-ddyfeisiwch y Ddyfais Ddieflig

Bydd cytundeb Yeltsin/Bush ar arfau niwclear yn arwain at y toriadau mwyaf yn arfogaethau niwclear y byd erioed. Mae hyn yn newyddion ardderchog i bawb sydd wedi bod yn gweithio dros ddiarfogi niwclear dros y degawdau diwethaf.

Mae'r cwtogi hwn ar raddfa y dywedwyd wrthym, ychydig iawn yn ôl, ei fod yn 'anghyraeddadwy', a'n bod yn anobeithiol ac afrealistaidd i ddadlau o'i blaid ac ymgyrchu drosto.

Yn awr, mae'n digwydd – cydnabyddir mor ddifudd oedd pentyrru mynyddoedd o'r arfau ofnadwy hyn, a chyn hir, eir ati i'w dadgomisiynu.

Sylwaf hefyd bod hyd yn oed rhai o ddadleuon mwyaf abswrd y gorffennol o blaid y ras arfau niwclaer yn cael eu taflu ar y domen ynghyd â'r arfau eu hunain.

Mae'n debyg nad MAD ('Mutually Assured Destruction') oedd yr unig enghraifft o acronym oedd yn fwy cywir na'r cyfuniad geiriau a esgorodd arno. Ond mae'n siwr mai hwn oedd yr ymgorfforiad mwyaf eglur o'r gorffwylledd y tu ôl i'r ras arfau. Yn awr, i'r domen â hwn hefyd.

Gwelwn arbenigwyr milwrol a strategwyr rhyngwladol yn ymddangos ar y teledu i ddweud wrthym nad oedd 'Mutually Assured Destruction' yn syniad da iawn erioed – bod adeiladu cronfeydd o ddigon o arfau i ladd poblogaeth y byd sawl gwaith drosodd yn wallgof, debyg iawn.

Fodd bynnag, wrth i rai o hen syniadau'r rhyfelwyr atomig fynd i'r gwellt, mae syniadau ac egwyddorion hesb eraill yn cael eu hail-osod mewn concrid bynceraidd ei drwch. Efallai mai'r mwyaf ystyrydebol a disylwedd o'r rhain yw 'Wel, bydd arfau niwclear gyda ni am byth nawr. Fedrwch chi mo'u dad-ddyfeisio, felly bydd rhaid cadw rhai ohonynt.'

Rhesymeg wan ymennydd leming yw hyn. Rhaid i'r mudiad heddwch , a phawb sydd am sicrhau dyfodol i'r byd, ei wrthod. Pe bai hi'n wir na allwn, fel bodau dynol, ymdynghedu i weithio gyda'i gilydd i wrthod rhai dewisiadau, a dyfeisio ffyrdd o sicrhau ein bod oll yn chwarae'n rhan i gyrraedd nodau y cytunwyd arnynt, yna byddai ar ben arnom go iawn.

Heb law am yr hunllef niwclear, mae'r ganrif o'n blaenau'n mynd i fod yn her anferthol o safwynt yr amgylchedd a datblygu. Ein hunig achubiaeth fydd cyd-weithio'n glosach a chytuno i bob pwrpas i 'ddad-ddyfeisio' peth o'r dechnoleg fwyaf niweidiol a gynhyrchwyd erioed.

Roedd arfau atomig yn gamgymeriad afradlon, ofnadwy a fydd yn bygwth Armageddon cyhyd ag y bônt. Maent yn haeddu eu 'dad-ddyfeisio'.

Fodd bynnag, nid wyf yn cynnig slogan newydd fel 'Dad-ddyfeisiwch y Ddyfais Ddieflig'. Gwnaiff 'Banio'r Bom' y tro yn iawn i mi.

**David Morris ASE**
**Cadeirydd CND Cymru**

## Gwir gost Trident

Byddai dileu Trident yn arbed £17,000 miliwn – llawer mwy na chyfanswm swyddogol cost y rhaglen.

Cyhoeddodd y llywodraeth ei ffigurau ar gyfer cost Trident ddiwedd mis Ebrill – £10,500 miliwn ar sail prisiau 1991-92.

Ond dengys dadansoddiad gan Greenpeace y gadawyd dau-draean o'r gwir gostau allan o'r amcangyfrifon swyddogol.

Dywed Greenpeace y bydd y rhaglen Trident dros 30 mlynedd wedi costio mwy na £33,000 miliwn i'r trethdalwr. Eglurir y gwahaniaeth anferth gan yr hyn y mae'r llywodraeth wedi ei adael allan.

- Cost rhedeg pedair llong danfor am oes (mwy na £11,000 miliwn)
- Gwaith yn y Sefydliadau Arfau Atomig (Aldermaston, Burghfield a Chaerdydd – £1,400 miliwn)
- Cyfran Trident o gostau rhedeg y Sefydliadau tan 2030 (bron £6,500 miliwn)

Nid yw ffigurau Greenpeace eu hunain yn cynnwys popeth ychwaith. Er enghraifft, maent yn anwybyddu cost cael gwared â deunydd ymbelydrol o ergydion Trident a'r llongau tanfor. Hyd yn hyn, ni all neb amcangyfrif y costau hynny oherwydd nid oes gan y llywodraeth yr un syniad sut y caiff wared o'r defnyddiau hyn.

Bwriada'r Llynges ddefnyddio Trident mewn swyddogaeth 'dactegol' – mewn geiriau eraill, gellid defnyddio taflegrau niwclear yn erbyn gwledydd yn y trydydd byd. Efallai y gosodir ergydion 'tactegol' sengl ar rai taflegrau Trident, a fyddai'n peri cymaint o ddinistr â Hiroshima.

Beth bynnag ei ffurfwedd, mae Trident yn cynrychioli cynnydd anferth *unochrog* yng ngrym ymosod niwclear Prydain, fel y dengys y tabl isod.

| | Polaris | Trident |
|---|---|---|
| Nifer o longau tanfor | 4 | 4 |
| Nifer y taflegrau y cwch | 16 | 16 |
| Nifer yr ergydion y taflegryn | 2 | hyd at 8 |
| Nifer ddamcaniaethol o ergydion ar bedwar cwch | 128 | hyd at 512 |
| Nifer yr ergydion mewn lle | 96 | dim hyd yma |
| Nifer o dargedi | 48 | hyd at 512 |
| Maint yr ergydyn | 40-100kt | 100kt |
| Maint y taflegryn | 80-200kt | hyd at 800kt |
| *Maint pedair llong danfor* (cyfwerthoedd Hiroshima) | 300-750 | hyd at 4,000 |
| Amrediad taflegryn (milltiroedd) | 2,500 | 6,000 |
| Cywirdeb ergydyn (llathenni) | 1,000-1,500 | o fewn 200 |
| Amser hedfan taflegryn (muned) | hyd at 15 | 5-12 |

# Ethol o blaid diarfogi

Gweithiodd 'Thatcheriaeth' o blaid y sefydliad; ni weithiodd y 'Realiaeth Newydd' o blaid y gweddill ohonom. Dilyn egwyddorion monetaraidd a gwrth-gymdeithasol yn ddidostur oedd hanfod Thatcheriaeth, tra deilliodd y 'Realiaeth Newydd' o gefnu ar egwyddorion. A fydd arweinyddiaeth newydd y blaid Lafur yn barod i ddysgu'r wers?

Nid swyddogaeth CND yw cefnogi unrhyw blaid neilltuol neu gynghrair o bleidiau, ond yn hytrach poblogeiddio diarfogi a thrwy hynny beri i bleidiau a'r llywodraeth newid eu polisiau. Yn rhyfedd ddigon ymddengys y Toriaid, heb fod angen iddynt hwy brofi eu bod yn 'gryf' ar amddiffyn, fel pe baent yn fwy agored i bwysau deublyg yr economi Brydeinig a byd sydd yn newid, fel y dengys y Papur Gwyn 'Options for Change' a'r penderfyniad diweddarach i ddileu arfau niwclear tactegol ar longau.

Talwyd am fuddogoliaethau etholiadol blaenorol gan olew Môr y Gogledd a gwerthu'r trysorau teuluol (preifateiddio a gwerthu tai cyngor). Pan fydd hi'n bryd llwgrwobrwyo'r etholwyr unwaith eto, dichon y caiff John Major for y cwpwrdd yn wag.

Os cred rhai pobl bod y blaid Lafur yn anetholadwy bellach, yna pa mor etholadwy fydd y Toriaid heb ddifidend heddwch?

Mae'r ddadl o blaid gostyngiad anferth mewn gwariant ar arfau yn cysylltu achos diarfogi niwclear ag anfoddhad y boblogaeth ynglŷn â iechyd, addysg, diweithdra, tai a phensiynau. Ni ellir ei gwahanu ychwaith oddi wrth faterion megis datblygiad a'r amgylchedd.

At hynny, mae'n braenaru'r tir ar gyfer datgysylltu gwledydd Prydain o'r elyniaeth a'r gwrthdaro posib yn yr 21ain ganrif rhwng pwerau mawr gogleddol am reolaeth dros adnoddau de, canolbarth a dwyrain Ewrop ac Asia.

Yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau, gallai'r difidend heddwch fod yn allweddol i'r pethau yr ydym o'u plaid ac yn eu herbyn, yn lleol ac yn fyd-eang. Os ydym yn edrych am strategaeth sydd yn cysylltu ein hamcanion sylfaenol a'n blaenoriaethau presennol â'r pryderon cyffredinol am filitariaeth a gwrthdaro; sydd yn cwmpasu dau bryder mawr arall yr oes hon, sef datblygu a'r amgylchedd; sydd yn hwyluso ymgyrchu eang a buddiol gan aelodau cyffredin; ac sydd wedi ei anelu at fan gwannaf y sefydliad niwclear Prydeinig a'i llywodraeth, yna dichon mai'r difidend heddwch yw'r ffordd ymlaen.

**Gary Lefley**
**Ysgrifennydd Cyffredinol, CND Prydeinig**

# Gŵyl Heddwch Llydaw

Cynrychiolwyd CND Cymru yn yr ŵyl Heddwch Ryngwladol a gynhaliwyd yn Llydaw ym mis Mai. Daeth cynrychiolwyr o fudiadau heddwch o Lydaw, Ffrainc, yr Almaen, Cymru, Lloegr, Awstralia, Siapan a Seland Newydd ynghyd i drafod yr angen am ddiarfogi o blaid datblygu a'r amgylchedd, ac ar yr ail ddiwrnod, cariwyd baner CND Cymru ar orymdaith i'r Ganolfan Longau Tanfor yn L'isle Longue.

Amlinellodd Gweithwraig Ymgyrch CND Cymru, Mary Jones, y materion sydd o bwys i ni yng Nghymru ... a rhoi cefnogaeth i gydweithio closach rhwng CND Cymru a Mouvement de la Paix yn Llydaw – mae cytundeb heddwch yn bod eisoes rhwng Llydaw a Chernyw – fel man cychwyn sefydlu Mudiad Heddwch Celtaidd.

# Ar y ffordd

Thema 'Menywod ar Y Ffordd dros Heddwch' eleni yw 'Cyfwynebu militariaeth y gorffennol, y presennol a'r dyfodol – onid yw hi'n bryd dweud NA?' Byddant yn ymweld â'r Wylfa (12-13 Awst), Caerwent (16 Awst) a Phontiets, ger Llanelli (17 Awst).

Manylion pellach gan Ganolfan Heddwch Brighton, 28 Trafalgar Street, Brighton BN1 4ED (0273 692880)

# Rhyddid yr awyr

'Llwybrau troed nid Llwybrau hedfan' yw slogan ymgyrch newydd yn erbyn hedfan isel gan awyrennau milwrol.

Gellir cysylltu â Rhyddid yr Awyr, a gefnogir gan Gynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid, drwy ffonio Gillian Metcalf (0570 45576) neu Vida Henning (0269 861290).

## 'The Culture of Contentment' gan J.K. Galbraith (Sinclair Stevenson Cyf., £14.95)

Dengys Galbraith sut mae cyfoeth cynyddol wedi arwain at lawer o anhwylderau presennol cymdeithas y Gorllewin. Awgryma, wrth i faint y boblogaeth sy'n fodlon ar eu byd gynyddu, yn enwedig yn UDA, ei bod wedi mynd yn fwyfwy anodd i wleidyddion i sefydlu cynlluniau i helpu'r rheini y tu allan i'r grŵp hwn sydd heb nemor ddim dylanwad gwleidyddol eu hunain.

Mae'n ymdrin â threthiant, monetariaeth, twyll ariannol y 1980au, y sefydliad milwrol ac agweddau at yr amgylchedd mewn modd doeth a ffraeth.

Mae canlyniadau'r etholiad yma ac anfodlonrwydd y gwledydd datblygedig i gymryd camau pendant yn Rio yn awgrymu bod ei ddadansoddiad yn gywir. 'For the contented majority the logic of inaction is inescapable' meddai (tud. 20), oblegid bydd y farn dymor-byr bob amser yn drech na'r canlyniadau tymor-hwy. Mae'r llyfr hwn yn feddyginiaeth yn erbyn y dadansoddi arwynebol sy'n rhemp heddiw, gan beri i bawb a'i darllena feddwl yn ddwys.

**Judith Anderson**

# Cefnogwch ymgyrch CND Cymru am fyd heddychlon

**FFURFLEN ARCHEB BANC**

At y Rheolydd (Enw eich banc)

Cyfeiriad:

Côd sortio'r banc:

Rhif cyfrif:

Telr i CND Cymru y swm o £ bob mis, gan gychwyn ar / /1992

Arwyddwyd: Dyddiad: / /1992

At ddefnydd y swyddfa: at y Banc Cydweithredol CCC, Blwch Post 75, Yr Ais, Caerdydd CF1 1SW. Talwch yr Archeb Banc hon i gyfrif cyflog CND Cymru, os gwelwch yn dda, rhif y cyfrif 50616169-50

**FFURFLEN NODDI**

Dyma fy nghyfraniad o: £100, £50, £30, £20, £10, £5, £ (swm)
Amgaeaf siec/archeb bost yn daladwy i CND Cymru, neu debydwch fy ngherdyn Access/Visa am £ (swm)

Rhif cerdyn:

Dyddiad y daw i ben:

Llofnod:

Enw:

Cyfeiriad:

Danfoner y ffurflen hon at CND Cymru, Bryn Eilltyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW.

# Listings

## AWST

**1af/8fed** ***Stondin CND Cymru*** yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Angen help o hyd. Ffoniwch 0970 611994 i gynnig!

**6ed** ***Dydd Hiroshima***

**12-13eg** ***Menywod ar y Ffordd dros Heddwch yn ymweld âr Wylfa*** visit Wylfa (gweler tud. 7)

**16eg** ***Menywod ar y Ffordd dros Heddwch yn ymweld âr Chaerwent*** (gweler tud. 7)

**17eg** ***Menywod ar y Ffordd dros Heddwch yn ymweld âr Phontiets, Llanelli*** (gweler tud. 7)

**17eg** ***Hedfan barcud*** Castell Cydweli 3pm. Trefnwyd gan ymgyrch Rhyddid yr Awyr yn erbyn hedfan isel. Cysyllter â 0269 861290 am fanylion.

## MEDI

**5ed** ***Cyngor CND Cymru***

**7fed** ***Cyfarfod grŵp golygyddol Heddwch De Cymru yn y Siop Heddwch***, Caerdydd (6.30pm) i drafod cynnwys y rhifyn nesaf. Croeso i bawb. Dyddiad olaf ar gyfer copi 25ain Medi.

**24/25/26** ***Ataliwch Brofion Niwclear ar Ein Tir*** Taith siarad gan fenywod Shoshone. Caerdydd 24ain (0970 774687). Aberystwyth 25ain (0570 45576). Blaenau Ffestiniog 26ain (0766 831356).

**26ain** ***Ysgol Undydd ar Drawsnewid Arfau***, Abertawe. Noddwyd gan David Morris ASE ac Adran Addysg Oedolion CPC Abertawe. Cyfle i ddysgu gan arbenigwyr yn y maes ... gyda digon o gyfle i drafod mater sydd o bwys hanfodol i ddatblygu ein hymgyrch yng Nghymru. Ffoniwch 0792 774687 am fanylion.

## HYDREF

**10fed** ***Rali Trident***, Caerdydd. Manylion gan y Siop Heddwch, Caerdydd. Tel 0222 489260

## TACHWEDD

**21ain** ***Ffair Ryngwladol Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig***, Y Deml Heddwch, Caerdydd.

**28/29** ***Cynhadledd Flynyddol CND Prydeinig*** Athrofa Addysg Uwch Caerdydd, Cyncoed. Sadwrn 28 a Sul 29 Tachwedd 1992. I ddathlu 10fed Penblwydd Cymru fel gwlad ddi-niwclear bydd CND Cymru yn croesawu Cynhadledd Flynyddol CND i Gaerdydd. Fel rhan o'r croeso byddwn yn darparu llety ar gyfer cynrychiolwyr yn ogystal â threfnu noson gymdeithasol ar y nos Sadwrn. Mae gweithgor lleol yn cael ei ffurfio i gychwyn ar y gwaith mawr y bydd yn rhaid wrtho er croesawu achlysur o'r maint hwn i Gaerdydd.

Bydd y digwyddiad pwysig hwn yn ffocws da i'n hymgyrch yng Nghymru ond mae arnom angen cymorth ein holl aelodau a'n cefnogwyr yng Nghaerdydd a'r cyffiniau i wneud y peth yn llwyddiant! Carem gael gwybod YN AWR gan unrhywun sy'n fodlon

- cynorthwyo â'r gwaith cynllunio
- cynnig llety
- bod yn stiward yn y gynhadledd

A fyddech cystal â chysylltu â Gweithwraig Ymgyrch CND Cymru, Mary Jones, ar Abertawe (0790) 774687 i gynnig cymorth neu i gael gwybodaeth bellach – neu gadewch neges gyda'r Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd, tel. 0222 489260.

## CYSYLLTBWYNTIAU

*Yn sgil ymddeoliad Bob Cole fel Ysgrifennydd Cyffredinol, mae CND Cymru wedi bod yn gweithio ar ffyrdd newydd o gydgysylltyu'r ymgyrch a chadw mewn cysylltiad ag aelodau, aelodau cysylltiol a grwpiau.*

*Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd, Jill Stallard, yn canolbwyntio ar gydgysylltu mewnol (tel. 05505 260). Bydd ein gweithwraig, Mary Jones, yn cydgysylltu ymgyrchu cyhoeddus a chysylltiadau â'r wasg (tel. 0792 774687).*

*Bydd yr is-gadeiryddion yn gyfrifol am gadw mewn cysylltiad â grwpiau ymgyrchu ac aelodau unigol yn eu hardaloedd hwy. Eu henwau hwy yw – Gogledd : Ann Hall (Ffôn 0766 831356); De: Brian Jones (Ffôn 0792 830330; Canolbarth a'r Gorllewin: Medi James (Ffôn 0970 832725), Ian Campbell (Ffôn 0970 871360), Rod Stallard (Ffôn 05505 260).*


## CND Cymru

Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

**YN RHENG FLAEN YR YMGYRCH AM GYMRU AN-FILWROL A BYD HEDDYCHLON.**

Dylid danfon cyfraniadau i Heddwch at
*Bob Cole, Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW.*

I hysbysebu yn Heddwch, cysyllter â
*Mary Jones, 9 Idris Terrace, Plasmarl, Abertawe (0792 774687).*

Os am daflenni ymgyrchu neu wybodaeth gyffredinol, danfoner at
*CND Cymru, d/o Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ.*

Mae gennym ystod lawn o nwyddau CND.
**CRYSAU-T RHODDION CERDDI LLYFRAU BATHODYNAU STICERI**
Catalogau/archebion drwy:
Masnacha CND Cymru, Cae'rychain, Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6SG.

**Carwn ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**


Enw ..................................................

Cyfeiriad ..................................................

..................................................

Amgaeaf siec/archeb bost am £ ...... yn daladwy i CND Cymru
Pâr £15 Oedolyn £10 Digyflog, pensiynwyr, myfyrwyr, ieuenctid £3 (noder pa gategori, os g. yn dda). Dychweler i CND Cymru, Brynelltyd, Tanysgrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW.





## Y Siop Heddwch

**56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ. Tel (0222) 489260**

**Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o**

Goroesi Rhyngwladol • Traidcraft • Amnest Rhyngwladol • Gwrth-Apartheid • Nicaragua • Greenpeace • Cyfeillion y Ddaear • Pryder am Heddwch • CND • Trydydd Byd Gyntaf • Chile • Earthcare • Unicef

Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau, ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.

***Pam na phrofwch y bwyd blasus yn ei Caffi Bwydlysieuol? Ar agor o 11.00am tan 6.00pm Mawrth-Gwener; 10.00am tan 5.00pm ddydd Sadwrn***



## Paul Donovan Adeiladwyr

**Estyniadau • Plymio • Toi Ffenestri UPVC ac ati**

**Contractwr ar gyfer holl waith adnewyddu'r Siop Heddwch (a gwblhawyd yn llwyddiannus)**

**10 Ffordd Meliden, Penarth, De Morgannwg. Teleffon 0222 709946**

**Dymuniadau gorau i'r Siop Heddwch**



## PARLA CATALÀ!

**Siaradwch iaith swyddogol Olympiaid Barcelona.**

Ymunwch â deng miliwn o siaradwyr Catalaneg, o Barcelona i Palma i Perpignan, gyda'r llawlyfr poced cynhwysfawr gyntaf ar gyfer siaradwyr Saesneg. **£3.95** yr un, disgownt maschnachol. Manylion o'r cyhoeddwr, Gwasg Pia, 37 Heol Siarl, Caerdydd 0222 222782.